| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Archwilio |
| **DYDDIAD** | 30 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15, a<br>• Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.

1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol bach yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

1.3 Ar gyfer "corff llywodraeth leol bach", mae cwblhau ffurflen swyddogol blynyddol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## 2. CYFRIFON 2014/15

2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2014/15 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen swyddogol am 2014/15, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.

2.3 Bydd y rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Pe bydd angen newidiadau yna fe gyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol ym mis Medi cyn cael ei ardystio gan yr Archwiliwr cyn 30 Medi.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a cymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15 – Atodiad A
- Ffurflen Swyddogol Flynyddol ar gyfer Archwiliad 2014/15 – Atodiad B